

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd heddiw (lau) am farwolaeth Mr Aled Jones (Llanefydd) wedi cyfnod cymharol fyr o salwch. Roedd Aled yn un o'r anwylaf, a bu iddo wynebu ei salwch yn ddewr a di-gŵyn. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Menna, ei wraig, a hefyd y plant – Marian, Huw, Gwyn, Rona, a Tudur a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid arbennig iawn. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt, ac y byddant yn profi cariad Duw yn eu hamgylchynu yn eu galar a'u hiraeth amdano.
- Anfonwn ein cofion at Menna Lloyd (Groes) fu yn Ysbyty Glan Clwyd am ychydig ddyddiau yn ddiweddar yn dilyn anffawd. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn iddi, ac i bawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Miss W. J. Roberts, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd a diolchwn am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Roedd Cymdeithasfa'r Gogledd yn cyfarfod yng Ngharno ddydd Mawrth diwethaf a bu iddynt gydnabod cyfraniad gwerthfawr nifer o flaenoriaid yr Ofalaeth hon sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth yn eu heglwys ac yn yr Henaduriaeth. Mae Mr Elfed H. Williams a Mr Meurig Owen (Cefn Meiriadog) a Mr Gruffydd Jones (Llansannan) wedi rhoi 50 mlynedd o wasanaeth; a Mrs Iona Jones (Cefn Berain), Mr Meirick Lloyd Davies a Mr Robert Henry Roberts (Cefn Meiriadog), Mr Arwyn T. Davies (Llansannan), a Mr Glyn Parry a Mr Robin G. Davies (Groes) wedi rhoi 40 mlynedd o wasanaeth. Arbennig iawn yn wir! Diolchwn ninnau'n gywir iawn iddynt am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd ac estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau iddynt.

I ddod

- **CIC** – Bydd criw CIC yn mynd i Fowlio 10 i Ganolfan Jade Jones, Y Fflint nos Wener, Mai 19eg ac yn cychwyn o Lansannan am 6.30. I sicrhau lle, rhowch eich enw a'r ffurflen ganiatâd i Gwion **erbyn dydd Sul, Mai 14eg**, os gwelwch yn dda. Cysylltwch â Gwion os nad ydych wedi cael ffurflen.
- **PERTHASEDD PANTYCELYN** yn Neuadd Goffa Rhys Pritchard, Llanybydder dydd Sadwrn, Mai 20fed o 10.00-4.00. Holwch Mair os am gopi o raglen y dydd.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Diarhebion 3:1-7 (BCND tud.577 / BCN tud.528)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7^{fed} Mai 2017

Darlleniad y Dydd

Hebreaid 12:1-3

(BCND tud.249 / BCN: tud.228)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Dydd da a chroeso cynnes i chi i oedfaon cyntaf mis newydd! A ninnau yng nghanol cyfnod digon cythryblus gyda nifer o etholiadau yn cael eu cynnal, boed i ni gofio anogaeth 1 Timotheus 2:1-2 ar i Gristnogion fod yn gweddio dros bawb sydd (neu fydd!) mewn awdurdod er mwyn i ni gael heddwch i fyw bywydau duwiol a gweddus.

Mewn ychydig o wythnosau bydd digwyddiad o bwys rhyngwladol yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd. I'r rhai ohonoch sy'n dilyn pêl droed (neu sy'n ceisio cael llety ar gyfer Eisteddfod yr Urdd!) fe wyddoch yn iawn y bydd rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr Ewrop yn cael ei chynnal yn Stadiwm y Mileniwm ar Fehefin 3ydd. Yn yr ornest hon bydd dau dîm gorau Ewrop yn brwydro yn erbyn ei gilydd o flaen tua 70,000 o gefnogwyr yn y stadiwm a miliynau o gwmpas y byd ar y teledu. Tybed fydd gwybod hyn yn cymell y chwaraewyr yn eu blaenau neu'n creu nerfusrwydd ofnadwy o'u mewn? Wrth i ni droi at ddarlleniad y dydd heddiw o Hebreaid 12, cawn ddarlun o'r byd chwaraeon i'n cymell ni yn ein blaenau yn ein bywydau fel disgyblion i Iesu Grist. A'r sail i'r anogaeth hon yw'r bobl llawn ffydd sydd wedi rhedeg ras bywyd yn barod ac wedi rhoi esiampl o dduwioldeb i ni, fel y gwelir yn Hebreaid 11. Beth bynnag y byddwn yn ei wynebu yn ystod ein bywydau, dylem gofio cymaint o bobl Dduw ym mhob oes sydd wedi wynebu pethau digon tebyg eu hunain, ac wedi parhau i ddibynnu ar Dduw a'i addewidion i'w cynnal hyd y diwedd. Oherwydd, yn ystod ein bywyd, profwn nifer o siomedigaethau a cholledion poenus, ond mae'r Beibl yn ein dysgu mai trwy roi'n ffydd yng Nghrist y derbyniwn obaith a nerth i ddyfalbarhau trwy frwydro yn erbyn y pechod sy'n ein denu mor hawdd. Nid ydym i stopio brwydro a rhedeg nes mae'r ras wedi dod i'w therfyn! Yn wir, mae'r Apostol Paul yn datgan yn hyderus nad 'oes un prawf wedi dod ar eich gwarthaf nad yw'n gyffredin i bawb. Y mae Duw'n ffyddlon, ac ni fydd ef yn gadael ichwi gael eich profi y tu hwnt i'ch gallu...' 1 Cor. 10:13

Ac wrth gwrs pan ydym ar ein gliniau, ac yn ystyried na allwn gario ymlaen ddim pellach, daw'r alwad i ni gadw'n golwg ar ein Hachubwr – Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd. Ef yw'r un sydd wedi ennill y wobwr yn barod trwy fyw bywyd perffaith ac wynebu erchylltra'r groes er mwyn achub a glanhau Ei bobl. Yn sgil ei fuddugoliaeth Ef, nid oes angen i'r rhai sy'n credu ynddo ddigalonni waeth beth fydd eu sefyllfa, dim ond derbyn o'i ras a'i gariad sy'n hen ddigon. "Yn y byd fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd." Ioan 16:33

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 10^{fed} ➤ Bydd **Sasiwn Chwiorydd y Gogledd** yn cyfarfod yn Eglwys Unedig Seion/Bryneglwys, Corwen pryd y bydd Bethan Davies, Port Talbot yn annerch am 2.00 ac Arfon Jones, Caerdydd am 5.30. Darperir paned o de yn y Ffestri rhwng y ddau gyfarfod.
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Iau – 11^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 12^{fed} ➤ Bydd **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Llanefydd gyda'r Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a bydd Cyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith cwrs plant ac oedolion yr Ysgol Sul.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 9^{fed} ➤ Bydd cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir oedfa Cymorth Cristnogol yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Cynhelir Oedfa Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Henllan am 11.00 a bydd Gwion yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Bydd gwasanaeth ar y thema Apêl Corwynt Cariad yn Ffestri Llansannan am 10.00 pryd y bydd Cheryl Williams yn rhoi cyflwyniad ac yn dangos ffrwyth gwaith Cymorth Cristnogol yn Ynysoedd y Philipinas. Fe wneir casgliad arbennig yn ystod yr oedfa. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 10^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Mai 7fed, os gwelwch yn dda.**
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Cynhelir Oedfa Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Sant Sannan am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.
- Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Llanefydd am 9.30.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.